# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 6 Gorffennaf 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Llywodraeth Agored

**C11 Alun Cairns:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar lywodraeth agored? (OAQ36622)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae'n Cod Ymarfer ar Ganiatàu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn amlinellu'n blaenoriaethau ar gyfer bod mor agored a phosibl. Mae'n caniatàu rhyddhau cryn dipyn o wybodaeth drwy ei fenter cyhoeddiadau a thrwy ateb ceisiadau penodol. Yr ydym yn barod yn darparu 'hawl i wybod' y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

### Anifeiliaid a Fwydwyd ar Gnydau GM

**C12 Mick Bates:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar labelu cynnyrch o anifeiliaid a fwydwyd ar gnydau GM? (OAQ36625)

**Y Prif Weinidog:** Sefydlodd Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 weithdrefnau cyfatebol ar gyfer asesu'n wyddonol, awdurdodi a labelu organeddau a addaswyd yn enynnol a bwyd a phorthiant GM. Mae'r rheoliad yn mynnu bod pob cynnyrch bwyd a phorthiant sydd yn cynnwys organeddau a addaswyd yn enynnol, neu sydd wedi'i gynhyrchu, neu sydd yn cynnwys cynhwysion sydd wedi'u cynhyrchu, gan organeddau a addaswyd yn enynnol, yn cael ei labelu, hyd yn oed os nad yw'r cynnyrch terfynol yn cynnwys deunydd GM. Mae hyn yn estyniad o reolau blaenorol a oedd yn mynnu bod cynhyrchion yn cael eu labelu dim ond pan y gellid profi bod deunydd GM yn y cynnyrch terfynol. Fodd bynnag, nid yw'r rheoliad newydd yn mynnu y labelir cynhyrchion sydd yn tarddu o anifeiliaid sydd wedi'u bwydo ar gnydau GM.

### Recriwtio Deintyddion yn y Gogledd Ddwyrain

**C13 Sandy Mewies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar recriwtio deintyddion yn y Gogledd Ddwyrain? (OAQ36644)

**Y Prif Weinidog:** Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried yr angen ar gyfer ehangu hyfforddiant israddedig deintyddol fel elfen integredig o'i strategaeth ddeintyddol i Gymru. Mae grŵp llywio datblygu'r gweithlu ar gyfer Cymru gyfan, mewn egwyddor, wedi rhoi ei gefnogaeth i'r ehangu hwn, ac mae trafodaethau yn parhau.

### RSA yn Islwyn

**C14 Irene James:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr ymateb i gymorth rhanbarthol dewisol yn Islwyn? (OAQ36615)

**Y Prif Weinidog:** Ers sefydlu'r Cynulliad, gwnaed 43 cynnig o RSA gwerth cyfanswm o £27.7 miliwn i gwmnïau yn Islwyn. Dylai'r grantiau hyn ddod â buddsoddiad o ryw £78.9 miliwn, gyda 1,682 o swyddi newydd a 713 wedi'u diogelu. Dengys ffigurau cymaradwy i Gymru gyfan 934 cynnig o RSA, gyda gwerth o dros £540 miliwn, gan ddod â rhyw £2,496 miliwn o fuddsoddiad. Rhagwelir dros 40,000 o swyddi newydd a bron i 15,800 o swyddi wedi'u diogelu.

## Systemau Trafnidiaeth Lleol

**C15 Christine Chapman:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i wella systemau trafnidiaeth lleol yng Nghymru? (OAQ36634)

**Y Prif Weinidog:** Yn 2004-05, byddwn yn buddsoddi mwy nag £85 miliwn mewn pecyn ar gyfer seilwaith trafnidiaeth lleol, a fydd yn cynnwys cyllid ar gyfer cynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd, trafnidiaeth integredig, cerdded a seiclo a llwybrau diogel i ysgolion. Yr ydym hefyd yn darparu bron i £9 miliwn i gefnogi gwasanaethau bws lleol a thrafnidiaeth gymunedol ac £8 miliwn mewn grantiau diogelwch ffordd lleol i awdurdodau lleol.